

Darparu gwasanaethau colur

Trosolwg

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â darparu gwasanaethau colur ar gyfer gwahanol arddulliau colur, yn cynnwys naturiol, gyda'r nos ac achlysuron arbennig. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn gallu gweithio gyda mathau gwahanol o groen a chyflyrau croen gwahanol.

Mae'r safon yn cynnwys rhoi amrywiaeth eang o gynnyrch colur ar wahanol fathau o liw croen a grwpiau oedran.

Er mwyn cyflawni'r safon hon bydd angen i chi gynnal iechyd, diogelwch a hylendid trwy gydol eich gwaith. Bydd angen i chi hefyd gynnal ymddangosiad personol proffesiynol a dangos sgiliau cyfathrebu ac ymgynghori da.

Prif ganlyniadau'r safon hon yw:

1. cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau colur
2. ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau colur
3. taenu cynnyrch colur

Darparu gwasanaethau colur

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau colur**

1. cynnal eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch trwy gydol y gwasanaeth
2. paratoi eich cleient a'ch hun er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol a'r diwydiant
3. gosod eich cleient mewn safle i fodloni gofynion y gwasanaeth
4. sicrhau bod eich ystum a'ch dulliau gwaith eich hun yn lleihau blinder a risg o anaf i chi'ch hun ac

eraill.

5. sicrhau bod amodau amgylcheddol yn addas i'r cleient a'r gwasanaeth
6. sicrhau bod eich ardal waith yn lân a thaclus drwy'r driniaeth
7. defnyddio dulliau gweithio sy'n osgoi'r risg o groes-heintio
8. sicrhau eich bod yn defnyddio offer a deunyddiau glân
9. hyrwyddo arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy
10. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a chyflenwyr neu gynhyrchwyr ar ddefnydd diogel o gyfarpar, deunydd a chynnyrch

11. cael gwared ar ddeunyddiau gwastraff yn ôl gofynion cyfreithiol
12. cynnal y gwasanaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau colur**

13. defnyddio **technegau ymgynghori** i bennu cynllun gwasanaeth y cleient
14. sicrhau caniatâd wedi'i lofnodi gan riant neu warcheidwad cyn trin plentyn cyn unrhyw wasanaeth

Darparu gwasanaethau colur

15. sicrhau bod rhiant neu warcheidwad yn bresennol trwy gydol y gwasanaeth ar gyfer plant sy'n iau na 16 oed

16. adnabod unrhyw wrtharwyddion a chymryd y **camau angenrheidiol**

17. cytuno ar y gwasanaeth a'r canlyniadau sy'n bodloni anghenion y cleient

18. sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan y cleient cyn cynnal y gwasanaeth

19. sicrhau bod y croen yn lân, wedi'i dynhau a'i leithio cyn rhoi'r colur

20. nodi a chofnodi'r **math o groen, cyflwr y croen**, ac arlliw sylfaenol croen y cleient

21. dewis cynnyrch colur sy'n gweddu grŵp oedran, **math o groen, cyflwr y croen, arddull colur** a hoffterau'r cleient

Taenu cynnyrch colur**

22. cydweddu'r colur sylfaen i greu arlliw croen cytbwys

23. defnyddio cynnyrch cywirol i guddio brychau ar y croen

24. defnyddio powdr i gyflawni'r gorffeniad a ddymunir, pan fydd angen

25. defnyddio cynnyrch aelïau i ddiffinio a siapio'r aelïau

26. cydweddu cynnyrch llygaid i weddu'r llyfnder, arlliw a'r lliw sydd eu hangen ar gyfer y cleient

27. defnyddio pensel linellu llygaid i bwysleisio siâp y llygaid

28. rhoi masgara yn gytbwys ar y llygaid

29. rhoi cynnyrch ar y bochau i weddu'r llyfnder, arlliw a'r lliw sydd eu hangen ar gyfer y cleient

30. defnyddio cynnyrch gwefus i bwysleisio gwefusau'r cleient

31. sicrhau bod holl elfennau'r colur yn cyfuno i gydweddu ei gilydd a bodloni'r **arddull colur** gofynnol

32. sicrhau bod y cleient yn fodlon â'r canlyniad gorffenedig

33. rhoi **cyngor ac arweiniad** i'ch cleient ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu

34. sicrhau bod cofnodion y cleient yn cael eu llanw a'u llofnodi gennych chi a'r cleient

Darparu gwasanaethau colur

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau colur**

1. eich cyfrifoldebau dros **iechyd a diogelwch** fel y diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n berthnasol i'ch swydd
2. paratoi eich cleient er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol a'r diwydiant
3. eich cyfrifoldebau dros gynnal eich hylendid, amddiffyniad ac ymddangosiad personol eich hun yn unol â gofynion cyfreithiol a gofynion y sefydliad
4. technegau gosod y cleient a chithau yn ddiogel er mwyn osgoi anghysur
5. yr amodau amgylcheddol sy'n angenrheidiol ar gyfer triniaethau a pham mae'r rhain yn bwysig
6. pam ei bod yn bwysig cadw eich ardal waith yn lân a thaclus
7. dulliau glanhau, diheintio a sterileiddio
8. dulliau o weithio'n ddiogel a hylan ac sy'n lleihau'r risg o groes-heintio
9. y gwahanol fathau o ddulliau gwaith sy'n hyrwyddo **arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy**
10. y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gweithio'n ddiogel y mae'n rhaid i chi eu dilyn
11. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a'r cyflenwyr neu gynhyrchwyr ar gyfer defnyddio **offer**, deunyddiau a chynnyrch yn ddiogel.
12. cael gwared ar ddeunyddiau gwastraff yn ôl gofynion y gyfraith
13. y rhesymau dros gynnal y gwasanaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau colur**

14. pam ei bod yn bwysig cyfathrebu gyda chleientiaid mewn dull proffesiynol

Darparu gwasanaethau colur

15. sut i gwblhau ymgynghoriad gan ystyried **anghenion amrywiol** y cleient
16. y gofynion cyfreithiol ar gyfer darparu triniaeth i blant sy'n iau na 16 oed
17. yr oedran y mae unigolyn yn cael ei ystyried yn blentyn a sut mae hyn yn amrywio'n genedlaethol
18. pwysigrwydd cytuno ar driniaeth sy'n bodloni anghenion y cleient
19. arwyddocâd cyfreithiol sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan y cleient cyn derbyn triniaeth
20. y gofynion deddfwriaethol ar gyfer storio a diogelu data cleientiaid
21. sut i adnabod yr **adweithiau** a'r **gwrtharwyddion a fyddai'n atal neu'n cyfyngu'r** gwasanaeth
22. y gwrtharwyddion sy'n galw am atgyfeiriad meddygol a pham
23. y camau angenrheidiol mewn cysylltiad â gwrtharwyddion penodol wrth atgyfeirio cleientiaid
24. y rhesymau dros beidio enwi gwrtharwyddion penodol wrth atgyfeirio cleientiaid
25. sut i adnabod gwahanol fathau, nodweddion a chyflyrau mewn cysylltiad â croen,
26. y gwahanol fathau o gynnyrch glanhau, tynhau a lleithio
27. y dulliau a ddefnyddir i lanhau, tynhau a lleithio'r croen
28. y meini prawf ar gyfer dewis **cynnyrch colur** sy'n addas i grwpiau oedran ac arddulliau colur gwahanol gleientiaid
29. sut i gydweddu **cynnyrch colur** i wahanol fathau o groen, arlliwiau croen a **chyflyrau croen**

Rhoi cynnyrch colur**

30. y gwahanol fathau o **gynnyrch colur** sydd ar gael ar gyfer y llygaid, y gwefusau a'r wyneb; technegau rhoi a'r canllawiau ar eu defnyddio
31. sut i addasu'r colur ar gyfer cleientiaid sy'n gwisgo lensys cyffwrdd neu sbectolau
32. sut i ddefnyddio lliwiau a chuddwyr cywiro i gydbwyso arlliw'r croen

Darparu gwasanaethau colur

33. sut i ddewis a defnyddio **cynnyrch colur** i bwysleisio siapiau wynebau
34. pam y dylid rhoi rhai **cynnyrch colur** mewn trefn arbennig
35. canlyniadau dewis a rhoi colur anghywir
36. **strwythur a swyddogaethau'r croen**
37. sut mae ffactorau amgylcheddol a ffordd o fyw yn effeithio ar gyflwr y croen
38. sut mae goleuo yn effeithio ar yr argraff o liw a'i ddylanwad ar effaith colur
39. y rhesymau dros gydweddu'r golau gyda'r achlysur y bydd y cleient yn gwisgo'r colur
40. **gwrtharwyddion** posibl a allai ddigwydd, sut i ddelio â hwy a pha gyngor i'w roi i'r cleient
41. cyngor ac argymhellion ar gynnyrch a gwasanaethau

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Technegau ymgynghori**

1. holi
2. gwranddo
3. edrych
4. teimlo
5. ysgrifenedig

Camau angenrheidiol**

1. annog y cleient i ofyn am gyngor meddygol
2. esbonio pam na ellir cynnal y gwasanaeth
3. addasu'r gwasanaeth

Math o groen**

1. olewog
2. sych
3. cyfuniad

Cyflwr y croen**

1. aeddfed
2. dadhydredig
3. sensitif

Cynnyrch colur**

Darparu gwasanaethau colur

1. paratowyr
2. lleithyddion lliw
3. colur sylfaen
4. powdrau
5. cynnyrch efydd i'r wyneb
6. cuddwyr
7. cynnyrch cywiro
8. cynnyrch aeliau
9. cynnyrch llygaid
10. cynnyrch llinellu'r llygaid
11. masgara
12. cynnyrch bochau
13. cynnyrch gwefusau
14. pensiliau

Arddull colur**

1. naturiol
2. gyda'r nos
3. achlysur arbennig

Cyngor ac argymhellion**

1. cynnyrch ôl-ofal addas a'u defnydd
2. osgoi gweithgareddau a allai achosi adweithiau

Darparu gwasanaethau colur

3. cynnyrch a gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol
4. technegau addas ar gyfer tynnu colur

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Iechyd a diogelwch**

1. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
2. Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
3. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
4. Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
5. Rheoliadau Gweithredoedd Codi a Chario
6. Rheoliadau Rheoli Sylweddau peryglus i Iechyd (COSHH)
7. Rheoliadau Trydan yn y Gweithle
8. Deddf Diogelu'r Amgylchedd
9. Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
10. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Gyflogeion)

Arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy**

1. Lleihau gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, aildefnyddio, gwaredu diogel)
2. Lleihau'r defnydd o ynni (offer ynni effeithlon, goleuadau ynni isel, defnyddio paneli solar)
3. Lleihau'r defnydd o ddŵr ac adnoddau eraill
4. atal llygredd
5. defnyddio eitemau untro
6. defnyddio dodrefn ecogyfeillgar, wedi'u hailgylchu
7. defnyddio paent â lefelau isel o gemegau

Darparu gwasanaethau colur

8. defnyddio cynnyrch organig gwrth-alergedd
9. defnyddio deunydd pecynnu sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd
10. dewis cynnyrch domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)
11. annog teithiau lleihau carbon i'r gwaith

Offer**

1. brwshys colur
2. cynwysyddion
3. cynnyrch tafladwy
4. cyrlwyr amrannau
5. plycwyr

Anghenion amrywiol**

1. diwylliannol
2. crefyddol
3. oedran
4. anabled
5. rhyw

Gwrtharwyddion**

1. chwysu gormodol
2. adweithiau anffafriol i'r croen
3. llygaid llawn dagrau
4. cochni gormodol

Gwrtharwyddion a fyddai'n atal neu gyfyngu**

1. feirol – crachen annwyd
2. llid yr amrannau
3. briwiau a chrafiadau agored
4. chwydd
5. llid y croen
6. meinwe craith ddiweddar
7. ecsema
8. hyperkeratosis
9. alergeddau croen
10. cleisio
11. llygaid llawn dagrau
12. ecsema a psorïasis wedi gwella
13. cochni
14. cleisiau

Gwrtharwyddion sy'n galw am atgyfeiriad meddygol**

1. bacteriol – impetigo
2. ffyngaid – tinea
3. llid yr amrannau
4. cyflyrau croen a heintiau difrifol i'r llygaid
5. acne

Darparu gwasanaethau colur

6. casgliadau
7. yr eryr a dafadennau
8. heintiau parasitedd megis pla llau a sgabies

Cyflyrau'r croen**

1. sensitif
2. dadhydredig
3. capilarïau wedi torri
4. llinorod
5. plorod
6. croendyllau agored
7. cylchoedd tywyll
8. hyper liwiad
9. hypo liwiad
10. niwed yr haul
11. creithiau
12. cochni
13. aeddfed

Cynnyrch colur**

1. paratowyr
2. lleithyddion lliw
3. colur sylfaen

Darparu gwasanaethau colur

4. powdrau
5. cynnyrch efydd i'r wyneb
6. cuddwyr
7. cynnyrch cywiro
8. cynnyrch aeliau
9. cynnyrch llygaid
10. cynnyrch llinellu'r llygaid
11. masgara
12. cynnyrch bochau
13. cynnyrch gwefusau
14. pensiliau
15. chwistrellwyr gosod

Strwythur a swyddogaethau'r croen**

Strwythur:**

1. haenau o epidermis
2. dermis
3. haen isgroenol
4. ffoligl gwallt
5. siafft gwallt
6. chwarren sebwm
7. chwarren arrector pili

Darparu gwasanaethau colur

8. chwarren chwys
9. gwythiennau gwaed a lymff
10. terfynau nerfau synhwyrdd

Swyddogaethau:**

1. sensitifrwydd
2. rheoli gwres
3. amsugno
4. amddiffyn
5. ysgarthu
6. secretu
7. cynhyrchu fitamin D

Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. parodrwydd i ddysgu
2. agwedd gweithio hyblyg
3. gweithiwr tîm
4. agwedd bositif
5. moeseg bersonol a phroffesiynol

Ymddygiadau

Mae'r ymddygiad a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba. Mae'r ymddygiad hwn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r sefydliad a'r unigolyn

1. bodloni safonau ymddygiad y sefydliad
2. cyfarch y cleient yn barchus ac mewn modd cyfeillgar
3. cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
4. trin y cleient yn gwrtais ac yn wasanaethgar bob amser
5. addasu'r ymddygiad i ymateb yn effeithiol i wahanol ymddygiad gan y cleient
6. gwirio gyda'r cleient eich bod chi wedi deall eu disgwyliadau yn llawn
7. ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient
8. adnabod gwybodaeth y gallai'r cleient ei chael yn gymhleth a gwirio a ydynt wedi deall yn llawn
9. bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant.

Sgiliau

Mae'r sgiliau allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. y gallu i hunan-reoli
2. cyfathrebu llafar a dieiriau gwyb
3. defnyddio'r ffyrdd mwyaf priodol o gyfathrebu gyda chleient
4. ymateb yn brydlon i gleient sy'n gofyn am gymorth
5. canfod gwybodaeth yn gyflym a fydd o gymorth i'r cleient
6. rhoi gwybodaeth y mae ei hangen ar gleient am wasanaethau a chynnyrch a gynigir gan y sefydliad

Geirfa

Mae'r sgiliau allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. y gallu i hunan-reoli
2. cyfathrebu llafar a dieiriau gwyh
3. defnyddio'r ffyrdd mwyaf priodol o gyfathrebu gyda chleient
4. ymateb yn brydlon i gleient sy'n gofyn am gymorth
5. canfod gwybodaeth yn gyflym a fydd o gymorth i'r cleient
6. rhoi gwybodaeth y mae ei hangen ar gleient am wasanaethau a chynnyrch a gynigir gan y sefydliad

Darparu gwasanaethau colur

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	01 Ion 2015
Dyddiad Adolygu Dangosol	29 Ebr 2020
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKAB10
Galwedigaethau perthnasol	Therapydd Harddwch, Artistiaid colur
Cyfes/Set	Therapi Harddwch
Geiriau Allweddol	colur; gwasanaethau